Mae'r ysgol yn derbyn arian gan y llywodraeth (Grant Amddifadedd Disgyblion) am bob plentyn sydd a hawi i ginio am ddim. Mae'n ofynnol i'r ysgol amlinellu sut mae'n gwario'r arian yma. Yn hanesyddol mae'r disgyblion yma yn perfformio yn dda yn Ysgol Pentreuchaf 'does yna ddim patrwm o danberfformiad.

Grant GAD Ysgol Pentreuchaf 2014/15: £4,590

Mae cynlluniau i wario'r arian fel a ganlyn:

Cyflogi athrawes i dargedu disgyblion / grwpiau o ddisgyblion o ran rhifedd ac iaith.

Creu cynllun i '*Dysgu Teulu'* er mwyn rhoi cymorth i rieni i ddatblygu sgiliau rhif, llythrennedd a TGCh y plant. Rhieni i gael menthyg ipads yn ystod y gwyliau / penwythnosau er mwyn hyrwyddo hyn.

Cynnal clwb darllen i'r plant a'u rhieni(o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 2) gan ddefnyddio appiau/TGCh. Y rhieni yn dilyn hyfforddiant gan y pennaeth,i greu adnoddau darllen gyda'u plant gan ddefnyddio appiau megis *Puppet Pals* a *Book Creator*.

Prynu pecynau rhieni 'Tric a Chlic' fel bo'r rhieni yn defnyddio'r gweithgareddau gartref i ddatblygu medrau ffoneg a darllen.